Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Ysgol Wirfoddol Eglwysig Y Model
Model Church in Wales School

Casgliad y Werin Cymru
People's Collection Wales

# Astudiaeth Achos 'Mapio'r Model', Ysgol Wirfoddol Eglwysig Y Model

Awduron: Rowan O'Neill a Casgliad y Werin Cymru

Roedd Mapio'r Model yn Broject gan Gyngor Celfyddydau Cymru ac Ysgolion Creadigol Arweiniol Cymru a gynhaliwyd yn Ysgol Wirfoddol Eglwysig Y Model Caerfyrddin yn ystod Tymor y Gwanwyn 2018. Mae'r Rhaglen Ysgolion Creadigol Arweiniol yn ceisio hyrwyddo cyfleoedd arloesol i ddysgu mewn ysgolion a mynd i'r afael â heriau penodol mewn ysgolion drwy ddarparu mynediad at bobl greadigol, sgiliau ac adnoddau. Roedd y project yn gydweithrediad rhwng yr arlunydd Rowan O'Neill a Grŵp Creadigol Blwyddyn 4 yn Ysgol Y Model.

Cafodd y project ei gynllunio gan yr artist mewn cydweithrediad ag athrawon yn yr ysgol, mewn ymateb i'r briff penodol: a all archwiliad o fapio dwfn drwy farddoniaeth a drama o Gymru wella hyder a sgiliau llafaredd a gwella gallu disgyblion ym Mlwyddyn 4 i feddwl yn greadigol? Gobaith arall hefyd oedd y byddai'r project yn arwain at greu adnodd digidol y gallai pobl eraill a oedd yn cysylltu ag Ysgol Y Model (hen a newydd) barhau i'w defnyddio yn y dyfodol. Gwelsom mai gwefan Casgliad y Werin Cymru oedd yr offer delfrydol ar gyfer cyflawni nodau'r project. Her y project hwn oedd canfod ffyrdd newydd o fapio cysylltiadau rhwng yr ysgol a'r dref, gan gynnwys daearyddiaeth, hanes a chwedloniaeth. Yr hyn a grëwyd oedd project ymchwiliol ar y cysyniad o fapio a oedd yn defnyddio Casgliad y Werin fel storfa ar gyfer y deunyddiau a grëwyd.

Teitl gwaith y project oedd 'Rhoi ein Hunain ar y Map'. O'r Mappa Mundi i'r Arolwg Ordnans i Google maps, cafodd y disgyblion eu haddysgu am y ffyrdd gwahanol o gynrychioli'r byd. Yna rhoddwyd y dasg i'r disgyblion fod yn gartograffwyr o'u hamgylchedd hwy, yn ffisegol, daearyddol a diwylliannol. Mae'r project wedi llwyddo i greu casgliad amrywiol o gyfryngau ac ymatebion sydd ar gael yma ar wefan Casgliad y Werin.

Mae Allwedd i'r deunyddiau a gynhyrchwyd gan y project ar gael drwy'r ddolen hon: https://www.casgliadywerin.cymru/story/820571

Cafodd y model gwaith hwn ei ysbrydoli'n rhannol gan waith artist theatr o Gymru, Cliff McLucas, a ddatblygodd ei gysyniad o fapio dwys yng Nghymru ar ddiwedd y 1990au. http://cliffordmclucas.info/deep-mapping.html

Mae gwybodaeth bellach ar gael am Ysgolion Creadigol Arweiniol a Chyngor Celfyddydau Cymru yma: http://www.arts.wales/arts-in-wales/creative-learning/cynllun-yr-ysgolion-creadigol-arweiniol?diablo.lang=cym

Gwefan Ysgol Wirfoddol Eglwysig Y Model: http://www.modelprimaryschool.com/

## Amserlen y Project

Roedd y project yn cynnwys 10 sesiwn; 8 a gynhaliwyd yn yr ysgol a 2 daith ysgol. Roedd y sesiynau ysgol yn 1 diwrnod cyfan fel arfer, ond gellid addasu hyn i gyd-fynd â'r amser a oedd ar gael. Ar ddiwedd y project cawsom ddigwyddiad i ddathlu a oedd yn cynnwys cyflwyniad byr a pherfformiad.

**Sesiwn 1.** Ymchwilio i fapiau.

**Sesiwn 2.** Ymchwilio i Deithiau.

**Sesiwn 3.** Taith ysgol 1 i Aberystwyth a'r Borth.

**Sesiwn 4.** Ymchwilio, mapio ac archwilio'r ysgol.

**Sesiwn 5.** Cyfweld â chyn-ddisgybl (casglu hanes llafar) ac ymchwilio i raddfa.

**Sesiwn 6.** Taith ysgol 2 i Amgueddfa Caerfyrddin a chreu ein cerdd ein hunain.

**Sesiwn 7.** Catalena o Casgliad y Werin yn ymweld â'r ysgol ac yn dysgu am feta data.

**Sesiwn 8.** Gwneud recordiad sain o'n cerdd ac ymchwilio i fesur a recordio.

**Sesiwn 9.** Creu cynnwys sain ac ysgrifenedig, archwilio sut i gyhoeddi ar wefan Casgliad y Werin a dysgu am hawlfraint.

**Sesiwn 10.** Creu ein map mawr ni o Gaerfyrddin.

**Digwyddiad i ddathlu'r Project.** Cyflwyno'r project i athrawon, rhieni, llywodraethwyr yr ysgol a'r gymuned leol.

Dechreuwyd pob sesiwn gydag awr gynhesu yn y neuadd; byddai hyn yn cynnwys cylch cyflwyniadol a gemau cynhesu ar sail dramâu.

## Cysylltiadau â'r Cwricwlwm

**Cyfnod Allweddol 2:** Hanes, Daearyddiaeth, Sgiliau Llythrennedd, Sgiliau Rhifedd, Fframwaith Cymhwysedd Digidol.

## Sesiwn 1. Ymchwilio i fapiau



Gweithgareddau:

- Gweithgareddau drama – Fe wnaethom gynnal y sesiwn yn y brif neuadd. Fe wnaethom ddechrau drwy sefyll mewn cylch a gwneud rhai ymarferion i ymlacio, a oedd yn deillio o dechnegau Augusto Boal e.e. y gêm enwau. Gêm enwau: mae’r plant yn cymryd eu tro i fynd i mewn i’r cylch a gwneud gweithred, yna mae’r plant eraill yn ailadrodd enw’r plentyn ac yn ailadrodd y weithred.

- Fe wnaethom ofyn i’r disgyblion hefyd feddwl am le yr oeddynt yn edrych ymlaen i fynd iddo (er mwyn dechrau cysylltu i fapiau a lleoliadau). Fe wnaethom ddychmygu dringo’r Wyddfa a gofynnwyd i’r disgyblion ddisgrifio’r olygfa o’r copa (beth allwch chi ei weld?).

- Yna fe wnaethom edrych ar fap amlinelliad o Gymru. A oeddent yn adnabod y siâp? A oedd yn llun neu’n fap? A wnaethom edrych arno neu ei ddarllen er mwyn ei ddeall? Yna fe wnaethom ein map ein hunain o Gymru gan ddefnyddio’r plant i greu’r amlinelliad, gan gynnwys Yr Wyddfa a Chaerfyrddin: https://www.casgliadywerin.cymru/items/804071

- Fe wnaethom rannu yn grwpiau o 4 ac edrych ar fapiau’r arolwg ordnans a oedd wedi’u gosod ar y llawr. Beth allant ei weld? Beth mae’r llinellau yn ei olygu? Fe wnaethom drafod yr allwedd ac ystyr y symbolau. Roedd un o’r mapiau hyn yn fap o

sir Dyfed gyda'r is-deitl 'tir o harddwch chwedlonol'.  Fe wnaethom drafod sut mae lleoedd yn newid dros amser.

- Fe wnaethom edrych ar fapiau gwahanol, gan gynnwys mapiau ffantasi mewn llenyddiaeth plant.  Ffynonellau: Mappa Mundi, Llyfrau Narnia gan C.S. Lewis, Winnie the Pooh gan A.A. Milne, Map y Mabinogion (http://prydain.wikia.com/wiki/File:Mabinogion_Map.jpg), Map llenorion Cymru (https://www.theliterarygiftcompany.com/products/literary-map-of-wales-map-llenorion-cymru).

- Yn y sesiynau prynhawn, ar ôl edrych ar y Mappa Mundi, gofynnwyd i'r disgyblion dynnu llun eu byd hwy, fel yr oeddent hwy yn ei weld, gan gynnwys popeth a oedd yn bwysig iddynt hwy ynddo.  Fe wnaethant ddefnyddio tudalennau canol eu llyfr nodiadau Cartograffwyr.  Ar ôl cwblhau'r dasg hon fe wnaethant gyflwyno eu mapiau i weddill y grŵp.

Deunydd darllen pellach i'r athrawon:

- http://www.cliffordmclucas.info/deep-mapping.html
- Boal, Augusto. (2002). *Games for Actors and Non-Actors.* Routledge, 2[il] argraffiad.
- https://dramaresource.com/drama-games/
- https://www.casgliadywerin.cymru/items/820356

## Sesiwn 2. Ymchwilio i deithiau

Roedd y sesiwn gynhesu yn cynnwys ymarferion ar leoliad ac ymwybyddiaeth ofodol. Cafodd gemau eu haddasu o Boal megis 'ceir' lle'r oedd disgyblion yn paru ac mae un yn gar a'r llall yn yrrwr. Mae'r car yn cau ei lygaid wrth i'r gyrrwr daro'n ysgafn ar ei ysgwyddau a'i gefn er mwyn cael y car i symud yn y cyfeiriad cywir. Roedd y gemau hefyd yn cynnwys pwyntiau o amgylch yr ystafell, creu trionglau cyfartal a chyfeiriadedd tuag at gyfeiriad. Yna fe wnaethom edrych eto ar y map chwedlonol o Ddyfed a thrafod enwau lleoedd gan gyflwyno'r syniad bod iaith yn rhoi cliw i natur lle e.e. Aber, Caer, Mynydd. Yna gofynnwyd i bob disgybl ddewis llwybr ar gyfer eu taith i Aberystwyth yr wythnos ganlynol, ei dilyn ar hyd y map ac yna ei storio yn eu bys. Yna fe wnaethom berfformio ein llwybrau fel grŵp, gan geisio gweithio allan pwy oedd yn cyrraedd gyflymaf. Fe wnaethom edrych ar y llwybr ar google maps.

Yn sesiynau'r prynhawn fe wnaethom ddechrau edrych ar wefan Casgliad y Werin. Fe wnaethom ganfod deunyddiau a oedd yn gysylltiedig â Chaerfyrddin a pharhau â'r drafodaeth a gafwyd yn y bore ar enwau lleoedd wrth ymchwilio i adeiladau arwyddocaol eu tref. Fe wnaethom edrych am ysgol y model ond nid oedd unrhyw eitemau eto ar y wefan. Fe wnaethom edrych ar swyddogaeth fapio'r safle a daeth y sesiwn i ben drwy gytuno i geisio rhoi ein hunain ar y map hwn.

## Sesiwn 3. Taith ysgol 1 i Aberystwyth a'r Borth



Paratoi: Fe wnaethom nodi ffynhonnell o ddeunydd a fyddai'n ein helpu i ddeall ein hardal leol yn well, ac fe wnaethom seilio taith ysgol ar yr adnodd hwn.  Fe wnaethom ymweld ag Aberystwyth i edrych ar Lyfr Du Caerfyrddin yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru.  Yn y Llyfrgell cawsom weithdy am y Llyfr Du a'i gysylltiad â Chaerfyrddin.  Rhoddwyd copi i ni o fap o Gaerfyrddin o 1888 gyda Stryd y Priordy/Priory Street arno.  Yna gofynnwyd i ni roi cylch o amgylch pob stryd neu lôn a oedd yn cynnwys y gair Priory.  Fe wnaethom ddysgu hefyd am gymeriad Myrddin a gofynnwyd i ni dynnu llun o sut yr oeddem ni'n dychmygu yr oedd yn edrych.

Roedd gennym ddiddordeb mewn lleoliad arall yn agos at Aberystwyth a oedd â chysylltiad â'r Llyfr DU; coedwig danddwr Y Borth.  Fe wnaethom gynllunio'r daith er mwyn gallu ymweld â Llyfrgell Genedlaethol Cymau, yna traeth Y Borth yr un diwrnod.  Ar y traeth bu'r disgyblion yn edrych ar y coed ac yna fe wnaethant gwblhau ymarfer mewn parau lle'r oedd un person yn gamera a'r llall yn ffotograffydd - roedd y ffotograffydd yn arwain y camera (gyda'i lygaid wedi cau) i leoliad yr oeddent am gymryd ffotograff ohono.  Cymerir y ffotograff wrth i'r camera agor ei lygaid.  Yna cafodd y fframiau hyn eu cofnodi gydag iPad go iawn.

Fe wnaethom edrych ar fap Arolwg Ordnans o Aberystwyth a'r Borth a thrafod pwyntiau cwmpas oherwydd roedd Y Borth i'r Gogledd o Aberystwyth.  Fe wnaethom dynnu llun labrinth yn y tywod ac fe wnaeth rhai o'r disgyblion dynnu llun y llwybr o Gaerfyrddin i Aberystwyth yr oeddent wedi'i storio yn eu bysedd yn y sesiwn flaenorol, pan oeddent wedi dilyn y llwybr i Aberystwyth o Gaerfyrddin ar y map o Ddyfed.

https://www.casgliadywerin.cymru/story/797666

## Sesiwn 4. Ymchwilio, mapio ac archwilio’r ysgol




Yn dilyn ymarferiad cynhesu, fe wnaethom greu cerdyn post o’n taith ysgol o’r wythnos flaenorol. Fe wnaethom ofyn i’r disgyblion feddwl am ddelwedd a oedd yn cynrychioli ein taith orau ac ysgrifennu neges. Anfonwyd y cardiau post adref i deuluoedd y disgyblion yn ddiweddarach yn y project.

Yna fe wnaethom ymarfer lle bu’r disgyblion yn rhestru cymaint o enwau lleoedd, gwledydd ac yn y blaen yr oeddent yn eu gwybod. Gwnaed hyn er mwyn paratoi i deithio o amgylch yr ysgol. Gofynnais i’r grŵp ddangos yr ysgol i mi a dweud wrthyf am unrhyw enwau a oedd ganddynt am leoedd penodol. Fe wnaethom orffen yn yr Atig, lle nad yw’r disgyblion yn mynd iddo fel arfer. Yn y prynhawn rhannwyd y grŵp yn ddau a chawsant fynd i’r ystafell sydd wedi’i chloi yn yr atig, a oedd yn cynnwys cofnodion yr ysgol gan gynnwys hen lyfr log yr ysgol pan oedd Ysgol Y Model yn ei lleoliad gwreiddiol. Gofynnwyd i’r disgyblion ddod o hyd i rywbeth diddorol yn yr ystafell. Ar ôl canfod y llyfr fe wnaethom ddarllen rhannau ohono a cheisio deall beth ydoedd. Roedd y llyfr yn cynnwys cofnodion dyddiadur a ffotograffau ac roedd hyd yn oed yn cynnwys cofnod am Ddirprwy Bennaeth presennol yr ysgol.

https://www.casgliadywerin.cymru/story/797726

## Sesiwn 5. Cyfweld â chyn-ddisgybl (casglu hanes llafar) ac ymchwilio i raddfa



Yn dilyn ymarfer cynhesu, dywedwyd wrth y disgyblion y byddai cyfle i gyfweld â chyn-ddisgybl Hen Ysgol Y Model a oedd hefyd yn athrawes yn yr ysgol bresennol. Treuliodd y disgyblion awr yn llunio eu cwestiynau. Yna fe wnaethant gyfweld â'r athrawes a chofnodi'r cyfweliad ar iPad. Yna fe wnaethant ysgrifennu cymaint ag y gallen nhw ei gofio yn eu llyfrau nodiadau mapio.

Yna cafwyd ymarfer yn edrych ar leoliad Hen Ysgol Y Model mewn cysylltiad â safle presennol yr ysgol. Yna fe dynnodd y disgyblion lun o'r llwybr o'r ysgol newydd i'r hen un. Fe edrychodd y disgyblion ar y cynllun o'r hen ysgol a oedd wedi'i gynnwys ar fap 1888 o Gaerfyrddin. Buont yn edrych hefyd ar enwau strydoedd a ffyrdd a cheisio creu eu henwau lleoedd eu hunain ar ôl derbyn parau o eiriau i'w rhoi at ei gilydd.

Yn sesiynau'r prynhawn fe rannwyd y grŵp yn barau unwaith eto er mwyn canolbwyntio ar fap cyfoes o Gaerfyrddin a oedd yn cynnwys yr ysgol a safle'r hen ysgol, a rhoddwyd y dasg iddynt 'raddio'r' map. Gorchuddiwyd y map gwreiddiol gyda phapur dargopïo a oedd wedi'i rannu'n naw sgwâr. Bu pob pâr yn gweithio ar sgwâr, yn trawsgrifio cynnwys pob sgwâr ar y papur A4 i un ddalen o bapur A3. Ar ddiwedd y sesiwn cafodd y sgwariau A3 eu cysylltu i ffurfio'r map mwy. Yn ddiweddarach, defnyddiwyd y map fel addurn ar gacen ar gyfer ein dathliad.

https://www.casgliadywerin.cymru/story/801081

## Sesiwn 6. Taith ysgol 2 i Amgueddfa Caerfyrddin a chreu ein cerdd ein hunain



Paratoi: Rhan o gylch gwaith project Ysgolion Creadigol Arweiniol yw gweithio y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Un o nodau penodol y project hwn oedd cynnwys barddoniaeth hefyd. Er mwyn cyfuno'r ddau nod hyn fe wnaethom ymweld ag amgueddfa Caerfyrddin yng nghwmni bardd o Gaerfyrddin i ysgrifennu cerdd am y dref. Roedd yr ymweliad yn lleol i'r ysgol felly fe gerddodd y plant i'r safle bws, talu am eu tocyn eu hunain a theithio ar y bws i'r amgueddfa.


Fe wnaethom ganfod y bardd lleol, Elinor Wyn Reynolds, a chysylltu â hi. Roeddem yn credu ei bod yn bwysig i'r bardd fod yn ddwyieithog, eu bod yn byw yn yr ardal leol ac yn deall hanes y dref. Roedd Elinor wedi ymweld â'r amgueddfa o'r blaen ac fe nododd rai pethau penodol yr oedd eisiau i'r disgyblion sylwi arnynt. Fe gawsom gyflwyniad i'r amgueddfa hefyd gan y curadur Peter Evans. Fe wnaethom dreulio'r bore yn yr amgueddfa, yn bwyta ein brechdanau yna cawsom sesiwn greadigol gydag Elinor ynglŷn â defnyddio ein dychymyg.

Ar ôl dychwelyd i'r ysgol fe wnaethom greu casgliad o eiriau o'r daith. Fe wnaethom ysgrifennu'r geiriau am lawer o'r pethau a welsom. Yna fe wnaethom ysgrifennu ein cerdd. Arweiniwyd y gweithgarwch gan Elinor, a ysgrifennodd y gwaith ar y bwrdd gwyn a chafodd y gerdd ei chreu ar lafar.

https://www.casgliadywerin.cymru/story/797811

https://www.casgliadywerin.cymru/story/791726

## Sesiwn 7. Catalena o Casgliad y Werin yn ymweld â'r ysgol ac yn dysgu am fetadata



Fe ymwelodd Catalena Angele, Swyddog Dysgu Casgliad y Werin Cymru â'r ysgol. Fe gyflwynodd wefan Casgliad y Werin i ni a dangos rhai enghreifftiau i'r disgyblion o'r gwaith a grëwyd gan ysgolion eraill ar wefan Casgliad y Werin. Dangosodd wahanol adrannau'r wefan i ni a sut i chwilio drwy'r cynnwys. Yna cynhaliodd sesiwn ar fetadata, i helpu'r disgyblion i ddeall y wybodaeth sydd ei hangen wrth lwytho cynnwys i wefan Casgliad y Werin. Bu'r disgyblion yn ymarfer ysgrifennu teitl da a disgrifiad ar gyfer y cardiau post yr oeddent wedi'u darlunio.

https://www.casgliadywerin.cymru/items/804111

Mae'r adnodd addysgu metadata; *Cynllun Gwers 2: Metadata – Chwilio am nodwydd mewn tas wair,* ar gael ar wefan Casgliad y Werin ac mae'n cysylltu i'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol: https://www.casgliadywerin.cymru/addysg/hawlfraint-metadata

## Sesiwn 8. Gwneud recordiad sain o'n cerdd ac ymchwilio i fesur a recordio.



Yn dilyn ymarfer cynhesu yn y bore buom yn gweithio i baratoi i recordio'r gerdd a ysgrifennwyd yr wythnos flaenorol.  Yna fe wnaethom recordio'r gerdd y tu mewn a'r tu allan ar yr iPad.

Yn sesiynau'r prynhawn buom yn edrych ar fesur, cofnodi mesuriadau a gwneud cynlluniau. Fe wnaethom fesur yr iard chwarae mewn gwahanol ffyrdd – defnyddio cortyn, cortyn clymog, olwynion rowlio, tâp mesur a ffon fesur metr.  Aethom yn ôl i'r ystafell ddosbarth a thrafod graddfa – sut y byddem yn darlunio'r hyn yr oeddem wedi'i fesur yn gywir ar bapur? Fe wnaethom ddefnyddio papur graff i ddarlunio'r hyn yr oeddem wedi'i fesur.

Fe wnaethom edrych hefyd ar 'gynyddu maint'.  Fe wnaethom edrych ar gynllun yr hen ysgol fel yr oedd yn ymddangos ar fap 1888 o Gaerfyrddin a phenderfynu ceisio rhoi cynnig ar ddarlunio'r hen ysgol ar iard chwarae'r ysgol newydd.  Fe wnaethom benderfynu faint yn fwy yr oeddem eisiau i'r map ymddangos ar yr iard chwarae.  Fe wnaethom luosi mesuriadau'r map ac yna ail-greu'r map 40 gwaith yn fwy mewn sialc ar yr iard chwarae.

https://www.casgliadywerin.cymru/story/799431

## Sesiwn 9. Creu cynnwys sain ac ysgrifenedig, archwilio sut i gyhoeddi ar wefan Casgliad y Werin a dysgu am hawlfraint.

Yn dilyn y sesiwn gynhesu fe wnaethom recordio'r gân Clychau Cantre'r Gwaelod yr oedd y grŵp blwyddyn wedi'i pharatoi a'i chanu yn eu Gwasanaeth Dydd Gŵyl Dewi. Mae'r gân yn son am y chwedl sy'n gysylltiedig â'r goedwig danddwr yn Y Borth, sy'n ymddangos yn Llyfr Du Caerfyrddin.

https://www.casgliadywerin.cymru/items/800416

Yna buom yn gweithio yn yr ystafell gyfrifiaduron yn edrych ar y syniad o bwysigrwydd hawlfraint, fel ffordd o gyflwyno'r cysyniad y byddai ein gwaith yn cael ei gyhoeddi ar wefan Casgliad y Werin. Roedd y delweddau a grëwyd gan y plant o Myrddin eisoes wedi'u llwytho i'r safle. Buom yn trafod hawlfraint, gan ddefnyddio adnodd addysgu hawlfraint Casgliad y Werin fel canllaw. Yna fe wnaethom ddilyn y broses lwytho a chyhoeddi, gan gynnwys tagio, dyddiadau a phinio i'r map.

Mae'r adnodd addysgu hawlfraint; *Cynllun Gwers 1: Hawlfraint – Byddwch yn ymwybodol o'ch hawliau digidol,* ar gael ar wefan Casgliad y Werin ac mae'n cysylltu i'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol: https://www.casgliadywerin.cymru/addysg/hawlfraint-metadata

Yn sesiwn y prynhawn fe wnaethom barhau i weithio yn yr ystafell gyfrifiaduron. Roedd casgliadau o ddelweddau a oedd yn gysylltiedig â'r sesiynau gwaith blaenorol eisoes ar gael i'w gweld ar wefan Casgliad y Werin. Ar ôl rhannu'r grŵp yn ddau, bu'r grwpiau yn gweithio gyda'r delweddau a'u defnyddio fel ysgogiad i greu cofnodion yn y llyfr log, fel y rhai a oedd yn ymddangos yn llyfr log yr ysgol. Bu'r grwpiau yn ysgrifennu disgrifiadau gyda'i gilydd o'r gwaith yr oeddent wedi'i wneud a'r profiadau yr oeddent wedi'u rhannu yn ystod y project. Mae'r rhain yn ymddangos ar y wefan fel Cofnodion dyddiedig y Llyfr Log.

## Sesiwn 10. Creu ein map mawr ni o Gaerfyrddin



Ar ôl recordio gweddi’r ysgol yn yr ystafell gyfrifiadurol, cafodd y disgyblion wahoddiad i edrych eto ar y fersiwn ar-lein o’r Mappa Mundi, i’w hatgoffa o’r map canoloesol hwn sy’n cofnodi lleoedd, digwyddiadau a phobl. Ar ôl archwilio’r map hwn eto fe aethom i neuadd yr ysgol iau. Roedd dalen fawr o bapur wedi’i pharatoi ymlaen llaw a chafodd ei gosod ar y llawr. Gofynnwyd i’r disgyblion ddiosg eu hesgidiau. Gosodwyd cynllun o hen Ysgol Y Model (o’r map 1888 o Gaerfyrddin) yng nghanol y ddalen o bapur. Ar y Mappa Mundi, mae Jerwsalem yng nghanol y byd. Ar ein map ni, yr ysgol sydd yng nghanol ein byd ni. Yn y gornel dde uchaf, fe osododd y disgyblion gwmpas yn dynodi’r gogledd. Yn y gornel chwith uchaf gosododd y disgyblion arfbais yr ysgol. Yn y gornel chwith isaf fe wnaethom ychwanegu graddfa, 1:17 a oedd yn nodi nifer y disgyblion a fu’n ymwneud â’r project.

Yn sesiynau’r prynhawn gofynnwyd i’r disgyblion lenwi gweddill y ddalen gyda’u Mappa Mundi. Buont yn torri’r ffotograffau a oedd wedi’u hargraffu o’r project a darluniau eraill a grëwyd yn ystod yr wythnosau diwethaf. Fe wnaethant ddarlunio delweddau eraill ar y map hefyd, gan gynnwys ffyrdd a strydoedd a lleoedd. Fe wnaethant gynnwys y gerdd hyd yn oed. Ar ddiwedd y sesiwn pan oeddent wedi cwblhau’r map fe wnaethom ganu hen gloch yr ysgol a’i recordio. Roedd hyn yn dynodi diwedd ein project o wneud map.

https://www.casgliadywerin.cymru/items/820261

https://www.themappamundi.co.uk/

https://www.casgliadywerin.cymru/items/804221

## Digwyddiad dathlu'r project




Fe wnaethom gynnal digwyddiad dathlu i gyflwyno'r project i'r athrawon, rhieni, llywodraethwyr yr ysgol, gweddill Blwyddyn 4 a'r gymuned leol.

Paratoi: Fe wnaethom anfon gwahoddiadau at y bobl a oedd wedi ein helpu gyda'r project, athrawon, llywodraethwyr a'r gymuned leol. Fe wnaethom ddewis pa rannau o'r gwaith digidol yr oeddem eisiau eu harddangos yn y digwyddiad. Yna fe wnaethom greu sgript i gyflwyno'r project a rhoi cyd-destun i'r delweddau yr oeddem wedi'u dewis. Yna buom yn ymarfer ein llinellau a chreu cyflwyniad digidol a oedd yn golygu cydlynu delweddau, recordiadau sain a lleisiau. Fe wnaethom gacen anferth a'i haddurno gyda chopi o un o'r mapiau yr oedd y disgyblion wedi'i wneud. Roedd y map wedi'i argraffu ar bapur siwgr.

Y digwyddiad: Cynhaliwyd y digwyddiad rhwng 3pm a 4pm yn Neuadd yr Ysgol. Cynhaliwyd y digwyddiad ar ffurf arddangosfa berfformio. Bu'r disgyblion yn cymryd eu tro i ddarllen eu llinellau o'r sgript. Fe wnaethant ddangos enghreifftiau o'u gwaith ar wefan Casgliad y Werin a chwarae rhai o'r recordiadau sain yr oeddent wedi'u gwneud. Cafodd delweddau a gwrthrychau a wnaed ac a ddefnyddiwyd yn ystod y project eu harddangos hefyd ar fyrddau o amgylch y neuadd, ac roedd y map mawr o Gaerfyrddin wedi'i osod yng nghanol y llawr er mwyn i bawb allu cerdded o'i amgylch. Bu'r Pennaeth ac un o'r llywodraethwyr yn canmol y disgyblion a'r project. Derbyniodd y ddau ddosbarth a fu'n rhan o'r project map Arolwg Ordnans wedi'i bersonoli, a oedd wedi'i argraffu'n arbennig i gynnwys yr ysgol yng nghanol y map a delwedd o'r disgyblion yn darlunio Cymru gyda'u cyrff ar y blaen. Cafodd pawb amser gwych, yn arbennig yn bwyta'r gacen map!

https://www.casgliadywerin.cymru/collections/820896




## AWGRYMIADAU GWYCH ar gyfer creu project llwyddiannus:

- Cofiwch gymryd ffotograffau yn ystod pob cam o'ch project er mwyn sicrhau bod gennych gofnod gwych o'r gwaith rydych wedi'i wneud, a llawer o gynnwys i'w lwytho i wefan Casgliad y Werin.
- Bydd ambell i sesiwn sgiliau sylfaenol ar sut i dynnu ffotograffau gydag iPads a fframio ffotograffau yn ddefnyddiol.
- Mae hefyd yn werth atgoffa'r disgyblion i geisio sefyll mor llonydd â phosibl wrth ddefnyddio recordwyr sain.
- Ceisiwch ymateb i'r pethau sy'n cael eu darganfod yn ystod y project er mwyn sicrhau bod ymdeimlad gwirioneddol bod y deunyddiau yn dod i'r golwg drwy gydol y broses.

**Gyda diolch i Emily Laurens (Cyngor Celfyddydau Cymru), Mari D. Hughes, Aoife Jones, Linda Turner a Grŵp Creadigol Blwyddyn 4 (Ysgol Wirfoddol Eglwysig Y Model).**